| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor yr Iaith Gymraeg |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 18 Rhagfyr |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Bobby Feeley / Nicola Stubbins |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Margaret Watkins, Swyddog Datblygu Staff |
| **Teitl:** | Fframwaith Mwy Na Geiriau |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Mae'r adroddiad am y gwaith a gyflawnwyd mewn perthynas â datblygu'r fframwaith Mwy Na Geiriau.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Hysbysu'r aelodau o'r cynnydd mewn perthynas â'r fframwaith.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**
I nodi cynnwys yr adroddiad.

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae 'Mwy Na Geiriau' yn fframwaith sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Nod y fframwaith a gyhoeddwyd yn 2012 yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod yr iaith yn rhan annatod o ofal a bod pobl sydd angen gwasanaethau yn y Gymraeg yn cael eu cynnig. Gelwir hyn y "Cynnig Gweithredol".

Fel rhan o'r fframwaith 'Mwy Na Geiriau' mae angen sicrhau bod dinasyddion yn:

- derbyn gofal priodol mewn iaith o ansawdd uchel;
- cael mynediad i wasanaethau iaith Gymraeg ar draws wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol pan fyddant eu hangen;
- cael eu sicrhau trwy'r ddarpariaeth 'Cynnig Gweithredol' eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch

O fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych mae ymrwymiad amlwg i gyflawni newid ac i wella gwasanaethau er mwyn sicrhau bod yr angen iaith Gymraeg yn gydran allweddol o ofal, i gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Ar gyfer 2017-18, bydd y Cyngor yn cymryd y camau gweithredu canlynol:

- darparu manylion ar sut y mae gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg ynghyd â thargedau i sicrhau gwelliant;
- sicrhau bod galluoedd iaith Gymraeg a chymhwysedd staff yn cael eu sefydlu yng ngweithdrefnau adnoddau dynol a recriwtio;
- rhannu arfer da wrth ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg a sut i wneud "Cynnig Gweithredol" gyda'r holl staff wedi eu cyflogi yn uniongyrchol neu o fewn gwasanaethau wedi'u comisiynu:

- darparu hyfforddiant ac adnoddau iaith i'r holl staff a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg i wella'u hyder wrth gyflawni gwasanaethau yn y Gymraeg.
- darparu rhyngwynebau a meddalwedd Gymraeg (fel Cysgliad) i staff gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn eu helpu i weithio'n ddwyieithog.

- Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am adroddiad blynyddol gan Sir Ddinbych ar gyflawni camau penodol wrth weithredu'r fframwaith. Monitro pellach o weithredu'r fframwaith yn canolbwyntio ar brofiad defnyddwyr o'r gwasanaeth a systemau monitro presennol (hy mewn arolygiadau AGGCC).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r fframwaith yn cyfrannu at iechyd a lles preswylwyr yn ogystal â hyrwyddo'r cynnig gweithredol o dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hynny'n unol â'r ymrwymiad a wnaed yn Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor i roi mwy o gyfleoedd i bobl gael mynediad i wasanaethau iaith Gymraeg. Paratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau Iaith Gymraeg.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r fframwaith yn effeithio gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf gan fod yna groesi o ran gwaith sy'n cael ei wneud yn gorfforaethol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Er nad oes angen Asesiad Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r buddion allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Iaith Gymraeg.

Un o gyfansoddiadau allweddol Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw cael: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden".

Mae gan y Cyngor hefyd gyfrifoldeb trwy ei Safonau Iaith Gymraeg i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

**8. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y prif risg yw'r methiant i gwrdd â chamau gweithredu wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu blynyddol a phreswylwyr methu cael mynediad i wasanaethau yn eu dewis iaith.

I leihau'r risgiau, sefydlwyd grŵp monitro sy'n cyfarfod bob tri mis i gadw golwg ar y cynnydd.

Mae rhaglen o gyfathrebu a hyfforddiant wedi'i wneud i sicrhau bod holl staff gofal cymdeithasol yn deall ac yn weithgar o ran gweithredu gweithgareddau i'w cael yn y fframwaith.